**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ymchwiliad Craffu – Yr Amgylchedd Naturiol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 26 Mawrth 2018 am 10.30 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P K Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | L S Gibbard | P R Hood-Williams |
| Y V Jardine | J W Jones | I E Mann |
| S Pritchard | | |

**Mynychwyr eraill**

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bethan Hopkins | Swyddog Craffu |
| Richard Rowlands | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): W G Thomas a/ac L V Walton
Aelodau Cyfetholedig(wyr):
Mynychwyr eraill:

---

1 **Ymddiheuriadau**

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Cafwyd ymholiadau gan y panel ynglŷn ag aelodaeth grwpiau, sefydliadau etc â diddordeb yn yr amgylchedd naturiol mewn unrhyw ffordd.

3 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Dim

4 **Cyngor Abertawe a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol**

- Daeth Richard Rowlands i gyflwyno'i adroddiad am yr hyn mae Cyngor Abertawe'n ei wneud ar hyn o bryd er mwyn bodloni ei ofynion o dan DLICD (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol)
- Ceisiodd yr adroddiad roi cefndir y DLICD - dyma'r ddeddfwriaeth sy'n gofyn i gynghorau wella lles

- Mae diwylliant ac ymddygiad yn agweddau allweddol o'r ddeddf
- Trafododd Richard yr hyn mae'r cyngor eisoes yn ei wneud
- Cafwyd trafodaeth fer ynghylch ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â datblygu polisïau. Cafwyd sylwadau bod angen mwy o fewnbwn gan y cyhoedd ynglŷn â datblygu polisïau
- Ni all mesurau DPA ar gyfer gweithio gyda'r DLlCD fod yn rhai ynysig. Caiff ei asesu wrth ystyried yr holl DPA

5 **Trafodaeth**

- Mae'r amcan 'Gweithio gyda Natur' yn rhan o'r Cynllun Lles ac mae'n ymddangos fod y Cynllun Corfforaethol yn anghyson gan nad oes ganddo darged dynodedig ar gyfer natur, felly nid yw'r proffil mor uchel ag y gallai fod
- Caiff unrhyw ganfyddiadau perthnasol o weithgareddau Craffu eraill eu hadrodd yn ôl i'r panel er mwyn osgoi dyblygu gwaith ac i helpu i greu darlun cyfredol o'r hyn sy'n digwydd
- Trafodwyd sut y penderfynir ar gynllunio a sut yr ystyrir problemau natur a bioamrywiaeth, ac a yw'r materion hyn yn cael eu hystyried yn ystod y cam cywir o'r broses
- Ceir asesiadau effaith integredig er mwyn sicrhau bod polisïau'n cysylltu â'r DLlCD
- Trafododd y panel effaith llygredd sŵn ac aer ar iechyd pobl a'r gofid y byddai'r materion hyn yn cael effaith ar ysgolion
- Rydym yn dibynnu llawer ar grantiau i ariannu llawer o'r gwaith ar natur a bioamrywiaeth ac mae pryder ynghylch effaith colli grantiau
- Bydd y panel yn cynnal trosolwg polisïau gwasanaeth yn y cyfarfod nesaf a bydd hyn yn cwblhau agwedd cynllunio'r ymchwiliad a bydd yn dangos cyfeiriad a chwmpas y gwaith

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm

**Cadeirydd**